## ATODLEN 2

## TELERAU CYTUNDEBAU CARTREFI SYMUDOL

### RHAN 1

### TELERAU A YMHLYGIR GAN Y DDEDDF

### PENNOD 4

### CYTUNDEBAU SY'N YMWNEUD Â LLEINIAU PARHAOL AR SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR

*Y ffi am y llain*

48 (1) Wrth bennu swm y ffi newydd am y llain rhaid rhoi sylw yn benodol i'r canlynol—

(a) unrhyw symiau a wariwyd gan y perchennog ers dyddiad yr adolygiad diwethaf ar welliannau—

(i) sydd er lles meddianwyr cartrefi symudol ar y safle gwarchodedig,

(ii) a fu'n destun ymgynghori yn unol â pharagraff 52(1)(f) ac (g), a

(iii) nad yw mwyafrif o'r meddianwyr wedi anghytuno â hwy mewn ysgrifen neu, yn achos anghytuno o'r fath, y mae tribiwnlys, ar gais y perchennog, wedi gorchymyn y dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth bennu swm y ffi newydd am y llain,

(b) unrhyw ostyngiad yn amwynder y safle gwarchodedig ers dyddiad yr adolygiad diwethaf, ac

(c) effaith unrhyw ddeddfiad sydd wedi dod i rym ers dyddiad yr adolygiad diwethaf.

(2) Wrth gyfrifo faint yw mwyafrif o'r meddianwyr at ddibenion is-baragraff (1)(a)(iii) rhaid cymryd mai 1 meddiannydd yn unig sydd gan bob cartref symudol ac os oes mwy nag 1 meddiannydd cartref symudol, cymerir mai'r meddiannydd yw p'un bynnag ohonynt y mae'r meddianwyr yn cytuno arno neu, yn niffyg cytundeb, yr un y mae ei enw'n ymddangos gyntaf ar y cytundeb.

(3) Mewn achos lle nad yw'r ffi am y llain wedi ei hadolygu o'r blaen, mae cyfeiriadau yn y paragraff hwn at ddyddiad yr adolygiad diwethaf i'w darllen fel cyfeiriadau at y dyddiad y cychwynnodd y cytundeb.